| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Mai 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Polisïau Deddfwriaeth Gwybodaeth** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Cyflwyno'r Polisïau a’r Gweithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data diwygiedig i’r Cyngor.

## 2. Beth yw’r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Roedd y Cyngor yn destun adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ran ei weithdrefnau Llywodraethu Rheoli Gwybodaeth ac, yn fwy diweddar yn 2012, o ran Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth a mynediad tîm archwilio mewnol y Cyngor at Wybodaeth Amgylcheddol. Un o’r argymhellion sy’n deillio o’r ddau adroddiad yw gallu'r Cyngor i wella ei bolisïau ar gyfer y meysydd hyn.

## 3. Beth yw’r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn:-

(1) Cymeradwyo’r dogfennau polisi a’r gweithdrefnau.
(2) Cymeradwyo’r diwygiadau i’r cynllun dirprwyo swyddogion o ran Panel Eithrio Hawl i Wybodaeth.
(3) Dirprwyo swyddogaeth yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth i’r Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad a dirprwyo swyddogaeth y Swyddog Diogelu Data i'r Dirprwy Swyddog Monitro.
(4) Awdurdodi’r Swyddog Monitro i ddiwygio’r Cyfansoddiad mewn perthynas ag argymhellion 2 a 3.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Nod y polisïau diwygiedig yw darparu datganiad polisi eglur, lle bynnag bo hynny’n bosib, o ran Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data, a gydnabyddir ar y lefel uchaf gan yr ‘Addewid Gwybodaeth Bersonol'. Fodd bynnag, mae'r polisïau'n treiddio'n ddyfnach na pholisïau pur ac yn darparu canllaw gweithdrefnol i swyddogion, aelodau a'r cyhoedd ar y ffyrdd y bydd y Cyngor yn trin ceisiadau am wybodaeth ac yn prosesu data personol.

Roedd y swyddogion a fu'n drafftio'r polisïau wedi ystyried cael un polisi cynhwysfawr, fodd bynnag, gwelwyd bod y ddau drefniant yn cyferbynnu. Mae'r naill yn fesur sy'n diogelu preifatrwydd personol a'r llall yn sicrhau mynediad at wybodaeth. Serch hynny, mae rhannau yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae ambell i wybodaeth bersonol yn ymwneud ag unigolion cyhoeddus fel aelod etholedig neu brif weithredwyr yn cael eu datgelu.

Mae'r rhyngwyneb yma rhwng dau faes cyfraith yn llinyn sy'n clymu'r ddau bolisi at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'n haws eu deall fel polisïau ar wahân.

Mae goblygiadau torri'r gyfraith hon yn sylweddol; nid yn unig o ran hyder y cyhoedd yn y Cyngor a sut mae'n prosesu data, ond o ran y ddirwy lem (hyd at £500,000 mewn achos difrifol) y gallai'r Comisiynydd ei bennu.

Trefn gyfochrog i Ryddid Gwybodaeth yw Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a bydd adolygiad y polisi hwnnw yn dod i ben yn ddiweddarach yn y flwyddyn oherwydd yr ymgyfreithiad yn ymwneud â mynediad at wybodaeth am bridiannau tir a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan gwmnïau chwilio personol yn erbyn y mwyafrif o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Fel rhan o'r strategaeth i wella ein rheolaeth o wybodaeth a symud yn nes tuag at reolaeth electronig o gofnodion a llif data syml, bydd yr aelodau, o graffu ar y polisïau, yn sylwi ar swyddogaeth y Tîm Rheoli Gwybodaeth ac ar swyddogaeth yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth a'r Swyddog Diogelu Data.

Mae'n rhaid i'r Cyngor benodi Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth ac mae disgwyl iddo/iddi ddeall sut gall nodau busnes strategol y Cyngor eu heffeithio gan risgiau gwybodaeth. Felly, mae'n rhesymegol i'r swydd hon fod o fewn adran sydd eisoes yn dal cofrestr risg corfforaethol ac yn gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth. Bydd y Swyddog yma'n cyfrannu at Ddatganiad Blynyddol y Cyngor ar Lywodraethu Corfforaethol mewn perthynas â risgiau gwybodaeth, datblygu'r strategaeth risg gwybodaeth a'r fframwaith gofynnol.

At hyn, trwy gydol 2012 mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi diwygio llawer ar y rheolau diogelu data (Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol drafft 2012/0011) ac un o'r argymhellion yw y dylai pob corff cyhoeddus o 2014 ymlaen benodi un swyddog 'cymwys' i fod yn Swyddog Diogelu Data. Cynigir y dylid gwneud hyn yn defnyddio'r adnoddau presennol ac y dylai'r Cyngor hwn ddechrau cynllunio ar gyfer y trefniant newydd tra mae'r adolygiad o'r broses llywodraethu gwybodaeth yn cael ei gynnal. Bydd disgwyl i'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth a'r Swyddog Diogelu Data gydweithio i ddatblygu'r strategaeth er mwyn iddi gael effaith ar y polisïau.

Mae'r polisïau diwygiedig sydd ynghlwm â'r adroddiad hwn hefyd yn ystyried bodolaeth a gwerth y Panel Eithrio Hawl i Wybodaeth sydd wedi ei ffurfio'n ddiweddar. Mae'r Panel hwn bellach â'r awdurdod i wneud penderfyniadau ar p'un ai yw Eithriad rhag datgelu yn briodol neu beidio yn hytrach na gadael i swyddogion y Cyngor benderfynu ar y mater. Mae'r penderfyniadau'n cael eu

gwneud gyda chefnogaeth o leiaf un swyddog hyddysg yn y gyfraith. Llywodraethu agored yw'r man cychwyn oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â datgelu gwybodaeth a ofynnwyd amdani. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull cyfreithiol yn y ddeddfwriaeth ac yn darparu cysondeb a chyfranoldeb er mwyn gwneud penderfyniadau. Bu i'r Panel dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ym mis Ebrill 2012 fel rhan o adolygiad y Cyfansoddiad.

Mae llywodraeth agored yn llywodraeth dda ac mae'r traddodiad o gyfrinachedd diangen yn dechrau diflannu ar lefel lleol a chanolog. Felly, mae'n hanfodol bod gennym ni broses gadarn yn ei lle sy'n hwyluso hyn ac yn parchu hawliau preifatrwydd personol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd arferion gwell a gwell llywodraethu yn cyfrannu at y flaenoriaeth o fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda.

## 6. Faint fydd yn costio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y gwasanaethau sy'n prosesu data personol sensitif yn cael budd o gefnogaeth arbenigol ychwanegol, arbenigedd a hyfforddiant gan yr Uned Gwybodaeth Corfforaethol a sefydlwyd yn ddiweddar i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau tuag at gwsmeriaid.

Bydd y costau'n cael eu cwrdd yn defnyddio cyllidebau presennol. Rhagwelir y bydd hyfforddiant a chefnogaeth arbenigol gan y Tîm Gwybodaeth Corfforaethol yn cael ei ddarparu'n fewnol yn hytrach na drwy ymgynghorwyr allanol.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Ymgynghorwyd gyda'r canlynol:

Swyddogion Rheoli Gwybodaeth pob gwasanaeth/maes
Tîm yr Uned Rheoli Gwybodaeth
Y Tîm Gweithredol Corfforaethol
Yr Archwilwyr Mewnol

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi derbyn adroddiad ar y polisïau cyn i'r Cyngor Llawn drafod yr eitem hon.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni does unrhyw oblygiadau cost uniongyrchol o ganlyniad I'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Polisïau gwybodaeth effeithiol yn gwella fframwaith llywodraethu cyffredinol y Cyngor.

**9. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Mae mwy o risg os na fyddwn yn gwella ein harferion yn y maes hwn.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 1972
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Deddf Diogelu Data 1998